GWAITH CARTREF - YSGOL CYBI

Mewn ymateb i HOLIADURON RHIENI ac HOLIDAURON STAFF Ysgol Cybi, rydyn ni wedi edrych yn ofalus ar drefniadau Gwaith Cartref yr ysgol ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael. Mae ein trefniadau newydd yn seiliedig ar ambell egwyddor pwysig.

Egwyddorion tu cefn i weithdrefn gwaith cartref Ysgol Cybi.

Yn Ysgol Cybi, mae'n bwysig bod Gwaith Cartref.....

(i) yn atgyfnerthu sgiliau sylfaenol llawr dosbarth
(ii) mor aml a phosibl, yn rhywbeth gall rhieni helpu hefo fo.
(iii) â disgwyliadau eglur i blant a rhieni, a bod y trefniadau yn cadw at batrwm rheolaidd.
(iv) yn cael ei cymryd o ddifri gan plant, rhieni a'r staff ysgol.
(v) yn PEIDIO CAEL EI OSOD yn ystod gwyliau ysgol!

	Darllen	Maths Pen / Tablau	Sillafu	Llawysgrifen	Arall
Derbyn	√	√			Bob hyn a hyn, byddwn yn gofyn bod plant yn gwneud rhywbeth bach ychwanegol **thematig** e.e. gweithio hefo rhiant i gynnig syniadau ar gyfer cynllun y tymor, ymchwilio i fewn i rhyw faes penodol.
Blwyddyn 1a2	√	√	√		
Blwyddyn 3a4	√	√	√	√	
Blwyddyn 5a6	√	√	√		

Clwb Gwaith Cartref Ysgol Cybi: Bob hyn a hyn, bydd plentyn yn dweud nad oes cyfle neu'r adnoddau ganddyn nhw i gwblhau Gwaith Cartref adra. Sefydlwyd 'Clwb Gwaith Cartref Ysgol Cybi' mewn ymateb i'r pryder yma, ac mae'n darparu sesiwn wythnosol i ddisgyblion dderbyn cefnogaeth gan aelod o staff yr ysgol.

Mr Owain L Roberts (Pennaeth Ysgol Cybi)